
Enw

# Gwers 4 Bywyd Jacob – Y Darganfyddiad




DARLLENWCH
Genesis 32: 1-21
Genesis 33: 1-11



ADNOD ALLWEDDOL
1 Ioan 1: 9

Aeth ugain mlynedd heibio, ac er bod bywyd yn galed i Jacob, roedd wedi dod yn gyfoethog iawn. Roedd ganddo deulu mawr. Roedd Duw wedi aros gydag ef, fel yr addawodd ym Methel. Yn wir, roedd wedi gwneud Jacob mor llwyddiannus fel bod Laban yn dechrau mynd yn genfigennus! Doedd Duw ddim wedi anghofio Jacob a daeth yn bryd dangos rhan nesaf ei gynllun iddo.

**C Darllenwch Genesis 31: 3 ac ysgrifennu ar yr arwydd beth ddywedodd Duw wrth Jacob am ei wneud.**



2

Sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n mynd adef ar ôl gwyliau? Er bod y rhan fwyaf o bobl yn mwynhau cael gwyliau, maen nhw'n falch o gael dod adref i weld ei perthnasau a'u ffrindiau eto. Ond tybed sut oedd Jacob yn teimlo am fynd adref ar ôl ugain mynedd? Byddai llawer o bethau wedi newid. Y peth gwaethaf oedd ei fod yn poeni rhag ofn bod ei frawd Esau yn dal yn bwriadu ei ladd.
Penderfynodd Jacob anfon negeswyr i weld beth oedd bwriad Esau. Daethant yn ôl â'r newyddion bod Esau a'i ddynion ar eu ffordd i gwrdd â Jacob.



**C Ysgrifennwch yn y blwch faint o ddynion oedd ym myddin Esau.**

1

**C Sut oedd Jacob yn teimlo am hyn? Ticiwch yr atebion cywir.**

**hapus** ☐ **ofnus** ☐ **balch** ☐ **pryderus** ☐ 2

**C Ysgrifennwch yn fyr, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, pa dri pheth a wnaeth Jacob cyn cwrdd ag Esau.**

1. Pennod 32: 7
2. Pennod 32: 9 – 12
3. Pennod 32: 13

3

## C Yn y Pos Geiriau, rhowch gylch o gwmpas enwau'r anifeiliaid y mae'r Darlleniad o'r Beibl yn sôn amdanynt.

Yna dechreuwch wrth y saeth ac ysgrifennu'r llythrennau sydd heb eu defnyddio i wneud brawddeg sy'n esbonio beth oedd pwrpas yr anifeiliaid hyn.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | Y | R | DD | O | D | J | A |
| C | O | B | R | F | I | E | G |
| A | D | N | F | O | A | N | O |
| D | O | DD | N | H | F | T | W |
| O | CH | 'N | A | N | E | RH | E |
| N | Y | G | I | I | D | O | N |
| N | B | I | R | 'W | F | R | A |
| Y | G | W | A | R | TH | E | G |
| S | W | D | E | S | A | U | |
| A | C | A | M | E | L | O | D |

Asynnod
Defaid
Camelod
Geifr
Bychod
Hyrddod
Gwartheg
Teirw

6

Anfonodd Jacob yr anrhegion o'i flaen.

## C Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam wnaeth e hynny (adnod 20)

2

Ceisiwch ddychmygu faint o syndod gafodd Esau wrth ddod i gwrdd â haid ar ôl haid o anifeiliaid a chael gwybod mai iddo fe roedden nhw i gyd! Yna, yn y diwedd, daeth y ddau frawd wyneb yn wyneb.

## C Pa adnod ym mhennod 33 sy'n dweud wrthym bod Esau'n falch o weld Jacob a'i fod wedi maddau iddo am iddo'i dwyllo tuag 20 mlynedd yn gynt? Adnod:- ____________

1

Roedd Jacob yn falch iawn bod ei frawd wedi'i dderbyn.

## C Lliwiwch y geiriau a ddywedodd Jacob am ddaioni Duw.

Fe enillais i'r anifeiliaid hyn i gyd mewn rhyfel.

Rwyf wedi bod yn lwcus iawn yn fy mywyd.

Mae Duw wedi bod yn dda i mi ac wedi rhoi popeth y mae arnaf ei angen.

1

Roedd Jacob wrth ei fodd bod ei frawd wedi maddau iddo. Roedd Duw wedi maddau iddo hefyd! Gall Duw faddau i ninnau hefyd. Allwn ni ddim ennill maddeuant trwy roi anrhegion i Dduw ond mae Duw yn cynnig maddeuant i ni am ddim. Mae'r Arglwydd Iesu wedi marw fel y gall Duw faddau'n pechodau ni.

## C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a chanfod beth y mae'n rhaid i ni ei wneud i gael maddeuant gan Dduw.

2

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 3 A7

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120